# CYNGOR CYMUNED CRYMYCH
## CRYMYCH COMMUNITY COUNCIL

Clerc/Clerk: Bethan Williams, 9 Berllan Aur, Boncath, SA37 0AB
cyngorcymunedcrymych@gmail.com / 01239 920180

**Ymateb Cyngor Cymuned Crymych i Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned**

Cynghorau cymuned yw prif gyswllt pobl am faterion lleol sydd yn eu heffeithio, a gall cynghorau cymuned arwain prosiectau sy'n codi o'r gymuned.

Pan dechreuodd Cyngor Sir Benfro godi tâl am ddefnyddio maes parcio Crymych roedd gwrthwynebiad yn lleol felly mae'r cyngor cymuned yn talu'r cyngor sir er mwyn i drigolion ac ymwelwyr allu defnyddio'r maes parcio am ddim. Mae hyn yn gefnogaeth i'r economi a busnesau yn yr ardal i hyrwyddo fod parcio am ddim i'w cwsmeriaid,
Yn yr un modd, roedd y Cyngor Sir am gau tŷ bach Crymych oherwydd costau ei gynnal a chadw. Mae Cyngor Cymuned Crymych wedi derbyn les tymor hir ar y tŷ bach er mwyn ei gadw ar agor, ac yn ei ariannu'n rhannol trwy arian rent am storfa sy'n rhan o adeilad y tŷ bach. Eto, roedd cadw'r tŷ bach yn fater pwysig i'r gymuned.

Mae'r cyngor cymuned hefyd wedi hwyluso a chefnogi mudiadau bach lleol i dderbyn grantiau, treialwyd un cynllun i roi hoe i ofalwyr gyda chefnogaeth y cyngor cymuned ac mae'r cynllun hwnnw bellach yn rhedeg yn annibynnol. Mae'r cyfle i beilota cynlluniau a phrosiectau newydd yn bwysig.

Mae wedi bod yn sbardun hefyd i dynnu busnesau Crymych at ei gilydd i ffurfio Clwb Busnes Preseli, sydd bellach yn trefnu calendr blynyddol sydd yn cynnwys digwyddiadau cymdeithasol a masnachol fel nad oes gwrthdaro dyddiau; creu taflen o ddigwyddiadau lleol i ddenu twristiaid ac ymwelwyr i wario arian yn y ward; ac yn cefnogi ei gilydd yn annibynnol o'r cyngor cymuned.

Mae ein cyngor cymuned ni wedi esblygu ac yn ymateb i'r hyn sydd angen ar gymunedau'r ward nawr, sydd wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod y cyngor cymuned yn parhau yn berthnasol, mae'n bosibl bod angen i gynghorau cymuned esblygu mewn ffyrdd tebyg. Ond yn sicr mae ganddynt rôl allweddol yn ein cymunedau.

O ran capasiti technoleg ddigidol a thechnoleg newydd i wella prosesau gwneud penderfyniadau, mae eisiau trefn ganolog i gael meddalwedd ar y we i bob cyngor cymuned fod yn gweithio i'r un safon a chanllawiau. Gyda dros 700 o gynghorau thref a chymuned yng Nghymru byddai codi £52 yr un arnynt, sef punt yr wythnos, yn golygu y byddai £36,400 y flwyddyn i dalu am gynllun canolog. Mae angen buddsoddi i gael systemau proffesiynol. Bydd

modd wedyn casglu data mewn amser priodol. (O bosib bod angen £2 yr wythnos wrth bawb i gael hwn i fwcwl)

Dylai'r cynghorau cymuned gael eu strwythuro a'u cefnogi i sicrhau bod y cynghorwyr cymuned yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn a strwythuro'r cyngor cymuned i gael aelodau sy'n cynrychioli saith nod y ddeddf:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau mwy cydlynol
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Dylai'r cynghorwyr cymuned wedyn sicrhau bod materion fel cynllunio a dyrannu tai cymdeithasol mewn pentref neu dref yn cael eu cymeradwyo'n llawn a bod y cyngor cymuned yn craffu arnynt. Byddai hyn yn cynnwys cymeradwyo polisïau gosod tai. Mewn rhai achosion, byddai'r cyngor cymuned yn cymeradwyo dyraniadau cyn eu cymeradwyo'n derfynol. Byddai hyn yn sicrhau bod cydbwysedd ieithyddol cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael ei warchod. Byddai adborth gan gynghorau cymuned yn adrodd i gynlluniau Llesiant y cyngor sir, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Rhanbarthol.

Hydref 2024